Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
Fire and Rescue Service

GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

ADRAN DDIOGELWCH CYMUNEDOL

HYFFORDDWR CADETIAID TAN (Gweithredol ac Anweithredol)
Cyflog: £12.08 yr awr

Oes gennych chi ddawn i ymgysylltu â phobl ifanc?

Allwch chi wneud gwahaniaeth i fywyd person ifanc?

Os ydych hi wedi ateb unrhyw un o'r cwestiynau hyn yn gadarnhaol, hoffem siarad â chi ynglŷn â gweithio gyda'n Cadetiaid Tân.

Mae'r Cynllun Cadetiaid Tân yn rhaglen ymgysylltu â phobl ifanc gyda thema Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer pobl ifanc 10-12 oed (Cadetiaid Ifanc) a 13-17 oed (Cadetiaid Tân). Nod y rhaglenni yw cynnig cyfle i bobl ifanc ymgysylltu â Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ac ennill cymhwyster credadwy wrth ddatblygu sgiliau bywyd a chael eu hysbrydoli i gyrraedd eu potensial llawn.

Rydym yn chwilio am ddarpar Hyfforddwyr Cadetiaid Tân Gweithredol ac Anweithredol sydd â'r gallu i gyfathrebu ac ymgysylltu â phobl ifanc. Mae angen pobl arnom sydd â sgiliau rhyngbersonol ardderchog sy hefyd yn gallu ymateb i anghenion amrywiol pobl ifanc.

Ar hyn o bryd mae gennym swyddi gwag ym mhob un o'n canghennau ar draws ardal De Cymru fel y nodwyd isod ac rydym hefyd yn edrych i greu cronfa o Hyfforddwyr i fanteisio ar swyddi gwag yn y dyfodol pan fyddant ar gael. **Bydd y gronfa hon yn ddilys am 12 mis.**

Mae cytundebau ar gael am 50 awr, 75 awr a 100 awr y flwyddyn. Mae'r oriau'n ymestyn ar draws 40 wythnos o'r flwyddyn gydag un noson yn ofynnol bob wythnos o 18.30 – 21.00 yn y lleoliadau y nodwyd.

Mae'r wythnosau'n cydfynd â'r tymor ysgol a bydd canghennau ar gau yn ystod gwyliau ysgol.

Mae 13 cangen Cadetiaid Tân ar draws De Cymru fel y nodwyd isod:

- Y Fenni – Dydd Iau
- Aberbargod -- Dydd Mawrth

Dyddiad yr Adolygwyd: 19eg o Chwefror 2019
Awdur: Donna Crossman

- Y Barri – Dydd Mawrth
- Pen-y-bont ar Ogwr – Dydd Llun
- Caerffili – Dydd Mawrth
- Cwmbrân – Dydd Mawrth
- Malpas – Dydd Llun
- Merthyr Tudful -- Dydd Mawrth
- Y Rhath – Dydd Llun
- Tredegar – Dydd Mawrth
- Tonypandy -- Dydd Iau
- Porth Caerdydd (i'w gadarnhau) – Diwrnod i'w gadarnhau (disgwylir iddo gael ei gynnal o'r 19eg o Fedi ymlaen)
- Malpas (Cadetiaid Ifanc) – Dydd Iau (o'r 19eg o Fedi)

Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol ar gyfer y swyddi hyn.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus hefyd yn destun archwiliad uwch boddhaol gan **y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd** a gwiriad clirio ac mae angen iddynt ymgymryd â phroses lawn Ymgyfarwyddo Cadetiaid Tân. Yn ogystal â hyn, bydd gofyn i hyfforddwyr anweithredol fynychu cwrs deuddydd goruchwylio ymarferion.

Gellir lawr lwytho Ffurflen Gais, y Fanyleb Person a'r Swydd-Ddisgrifiad o dudalen swyddi cyfredol ein Mewnrwyd neu'n allanol drwy law ein gwefan - www.decymru-tan.gov.uk neu drwy gysylltu â: 01443 232200.

Dylid dychwelyd ceisiadau gorffenedig at:

Y Tîm Recriwtio ac Adnoddu, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX neu e-bost: personnel@southwales-fire.gov.uk

Nodwch bob cangen y dymunwch gael eich ystyried ar ei chyfer.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau fydd **12:00yh Ddydd 31/07/2019.**

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni naill ai yn Saesneg neu yn Gymraeg. Ni chaiff ffurflenni cais a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

POSITIVE ABOUT DISABLED PEOPLE

Dyddiad yr Adolygwyd: 19eg o Chwefror 2019
Awdur: Donna Crossman